29	Côr S.A. Bl.13 ac iau	‘Yn y Bore’, Ryan Davies (tr. Gareth Glyn) <u>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod</u> 10–20 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir.
30	Côr T.B. Bl.13 ac iau	‘Hi yw Fy Ffrind’, Emyr Huws Jones (tr. Ann Hopcyn) <i>Cyhoeddiadau Sain</i> 10–20 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir.
31	Côr Bl.13 ac iau (D)	‘Hafan Gobaith’, Delyth Rees <i>Curiad</i> <i>Côr SATB – Curiad (3019) Côr SA – Curiad (2098)</i> 20–40 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir. Caniateir ffurfio Côr SATB a / neu Gôr SA a / neu Gôr TB (gan ddefnyddio'r copi SA). Gall Ysgol gystadlu â sawl côr gan gofio na ddylai neb ganu mewn dau gôr yn yr un gystadleuaeth.
32	Côr S.A.T.B. Bl.13 ac iau	‘Enfys’, Elin Fflur (tr. Elain Rhys) <u>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod</u> 20–40 mewn nifer. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirnedir.

33	Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad digyfeiliant
		3–6 mewn nifer. Digyfeiliant. Dim hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 33 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd – clicia yma
34	Ensemble Lleisiol Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad digyfeiliant
		3–6 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 34 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd – clicia yma
35	Ensemble Lleisiol 14–25 oed (Ae)	Hunan-ddewisiad digyfeiliant
		3–6 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir Arweinydd. Ni all yr un ensemble gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 33, 34 a 35. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd – clicia yma
36	Côr S.S.A. 14–25 oed (Ae)	'Os oes gen ti gân', Elain Rhys <u>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod</u>
		16–30 mewn nifer Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 2il o Fawrth.
37	Côr T. T. B 14–25 oed (Ae)	'Ceidwad y Goleudy', Emyr Huws Jones (tr. Robot Arwyn) <i>Curiad (4185)</i>
		16–30 mewn nifer. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 2il o Fawrth.
38	Côr S.A.T.B. 14–25 oed (Ae)	'Rhowch i mi', Catrin Angharad Jones <i>Curiad (3246)</i>
		Dim mwy na 40 mewn nifer. Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 2il o Fawrth.
39	Côr S.A.T.B 14–25 oed (Ae)	'Rhosyn yr Iôr', Gareth Glyn <i>Curiad (3153)</i>
		Dros 40 mewn nifer Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed. Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Cylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 2il o Fawrth.

Cerddoriaeth: Canu Gwerin

Dyddiad cau cofrestru: 9 Chwefror 2026

-
- 40** **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau** **'Morio'**
Caneuon Gwerin i Blant, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. [Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol – clicia yma](#)
-
- 41** **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.7, 8 a 9** **'Ffarwél i Ddociau Lerpwl'**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod – [clicia yma](#).
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. [Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol – clicia yma](#)
-
- 42** **Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.10 a dan 19 oed** **Naill ai:**
- 'Merch y Melinydd', 100 o Ganeuon Gwerin, Y Lolfa**
- neu:**
- 'Santiana', Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill, Y Lolfa**
Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill, Y Lolfa
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. [Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol – clicia yma](#)
-
- 43** **Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19–25 oed** **'Trafaeilais y Byd'**
Canu'r Cymry 1 a 2, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
- a Hunan-ddewisiad cyferbyniol**
- I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair o ddewis y cystadleuydd. [Dylid canu mewn arddull werinol, naturiol – clicia yma](#)
-
- 44** **Côr Gwerin Tri Llais Bl.13 ac iau** **Hunan-ddewisiad**
- Dim mwy na 40 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 3 munud
- Un gân ddigyfeiliant, gyda mwyafrif y trefniant yn dri llais.
- Dylai arddull y trefniant fod yn werinol naturiol yn hytrach nag yn arddull glasurol, pop, sioe neu jazz ayyb – [clicia yma](#)
-

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Lleisiol a Chanu Gwerin

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Cymraeg yw iaith pob darn prawf a hunan-ddewisiad.
- 3 Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol nac ychwaith newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth, oni nodir yn wahanol.
- 4 Ni chaniateir i lais unigol ganu mewn darn parti neu gôr: os oes cyfeiriad at unawd ar y copi neu fod rhywun yn "dweud rhywbeth" yna rhaid i'r holl adran ganu'r nodau/geiriau hynny, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- 5 Ni chaniateir i gyfeilydd addasu neu newid arddull y cyfeiliant piano: rhaid cadw at y copi.
- 6 Rhaid i unigolion, partïon a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
- 7 Rhaid i bartïon a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain.
- 8 Caniateir i bob cystadluwydd yr Unawd 19-25 oed ddod â chyfeilydd ei hun. Serch hynny, os am wasanaeth y cyfeilydd swyddogol, rhaid trefnu hynny (trwy Swyddfa'r Eisteddfod) erbyn Mawrth 2il- oni gwneir hynny, ni fydd yr Urdd yn gallu gwarantu cyfeilydd i chi yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- 9 Lle mae hunan-ddewisiad, rhaid uwchlwytho copi cyflawn wrth gofrestru ar-lein. Y mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau o dan ei gilydd mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn.
- 10 Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, (yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano) yng nghystadlaethau rhifau 11-13, 24-27, 29-32, 36-38.. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir. Ni chaniateir ychwanegu offerynnau yn y cystadlaethau eraill, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- 11 Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n guriad ar beiriant electronig, oni nodir yn wahanol o dan y gystadleuaeth.
- 12 Gwerin – Dylid parchu mydr naturiol y geiriau sy'n gallu amrywio o bennill i bennill. Gweler taflen y Gymdeithas Alawon. Gwerin ar wefan yr Urdd – [clicia yma](#).
- 13 **Amseru Darnau Hunan-ddewisiad** – dechreu'r yr amseru o nodyn cyntaf y perfformiad (nid yw hwn yn cynnwys gosod nodyn a chanfod traw).

Beirniaid Lleisiol: Ann Davies, Sioned Gwen Davies, Euros Rhys Evans, Llio Evans, Caryl Hughes, Iwan Wyn Parry, Meinir Richards, Ceri Haf Roberts, Helen Medi Williams

Cyfeilyddion: Steven John Evans-Justice, Elen Wyn Keen, Elain Rhys

Beirniad Gwerin: Esyllt Tudur Adair

Cerddoriaeth: Offerynnol

Dyddiad cau cofrestru: 26 Ionawr 2026

45	Unawd Telyn Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad
		Heb fod yn hwy na 3 munud
46	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad
		Heb fod yn hwy na 3 munud
47	Unawd Gitâr Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad
		Heb fod yn hwy na 3 munud
		Gweler Rheolau a Manylion Cystadlaethau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes.

48	Unawd Chwythbrennau Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud
49	Unawd Pres Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud
50	Unawd Piano Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud
51	Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 3 munud. Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes
52	Parti Recorder Bl.6 ac iau	'Yma o Hyd' Dafydd Iwan (tr. Grês Pritchard) <i>Cyhoeddiadau Sain</i> a Hunan-ddewisiad Teiran neu fwy Dim hwy na 16 mewn nifer. Y cyfan heb fod yn hwy na 3 munud Rhaid darparu copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol). Gellir cynnwys records gwahanol. Caniateir arweinydd. Ni chaniateir cyfeilydd.
53	Ensemble Offerynnol Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad 3-10 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 3 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir Parti Recorder. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn (gweler Rheol Offerynnol). Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon.
54	Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dros 10 mewn nifer Heb fod yn hwy na 3 munud Caniateir unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio Parti Recorder. Caniateir hyd at dri munud i osod a thiwnio. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol).
55	Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Bl.6 ac iau	'Pontydd' Unrhyw Nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud. Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol. Unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio Parti Recorder. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan.

56	Unawd Telyn Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud
57	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud
58	Unawd Gitâr Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud Gweler Rheolau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes.
59	Unawd Chwythbrennau Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud
60	Unawd Pres Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud
61	Unawd Piano Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud
62	Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes.
63	Ensemble Offerynnol Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad 3-10 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau 56-62 gan yr un cystadleuwyr. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn y gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol). Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon.
64	Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud

65	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud
66	Unawd Gitâr Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud Gweler Rheolau Offerynnol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes.
67	Unawd Chwythbrennau Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud
68	Unawd Pres Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud
69	Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud
70	Unawd Offer Taro Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud Gweler Rheolau Offerynnol ar gyfer defnyddio drymiau yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes.
71	Deuawd Offerynnol Bl.13 ac iau	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 4 munud Ni chaniateir perfformio yr un darn/au yn y cystadlaethau unigol (45-51) (56-62) (64-70). Cystadleuaeth ar gyfer dau berson yn unig yw hon. Ni chaniateir ee. dau fflwt a chyfeiliant piano (dyweder). Os yn dewis offeryn a phiano neu delyn, rhaid sicrhau darn addas, gyda'r ddau offeryn yn derbyn yr un sylw o ran y deunydd thematig
72	Ensemble Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad 3-10 mewn nifer. Heb fod yn hwy na 6 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o offerynnau. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau (64-71) gan yr un cystadleuwyr. Caniateir triawd piano (ar yr un offeryn). Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheol Offerynnol rhif 5). Rhaid i holl aelodau 'Ysgol' fod yn ddisgyblion yr ysgol honno. Os oes rhywun yn troi tudalennau'r pianydd, yna dylai fod yn ddisgybl o fewn oedran y gystadleuaeth hon.

73	Unawd Offerynnol 19–25 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy na 6 munud
74	Cerddorfa dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Heb fod yn hwy nag 8 munud
75	Band dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim llai na 10 mewn nifer. Heb fod yn hwy nag 8 munud Caniateir hyd at 5 munud i diwnio. Caniateir arweinydd. Rhaid cyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler Rheolau Offerynnol). Rhaid i holl aelodau y Band / Cerddorfa Ysgol fod yn ddisgyblion yn yr ysgol honno. Caniateir defnyddio'r llais yn achlysurol i ganu ambell air neu gymal (yn y Gymraeg), ond rhaid cofio taw cystadleuaeth offerynnol yw hon. Cynhelir y ddwy gystadleuaeth gyda'i gilydd. Rhaid i 'Gerddorfa' gynnwys adran sylweddol o offerynnau llinynnol. Ystyrir pob grŵp arall yn 'Fand'.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Offerynnol

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid i bob cystadleuydd berfformio'r un darn/au ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- 3 Rhaid i'r perfformiad gadw o fewn y terfyn amser a dylid amseru o'r nodyn cyntaf (yr unawdydd neu'r cyfeilydd) i'r nodyn olaf gan gynnwys unrhyw fylchau sydd rhwng symudiadau neu ddarnau. Gweler Rheolau Eisteddfod (3), tudalen 9.
- 4 Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw, boed yn drac neu'n gyfeiliant ar beiriant electronig ac eithrio'r cystadlaethau Unawd Gitâr ac Offer Taro lle caniateir traciau offerynnol/yn yr iaith Gymraeg. Ni ddylai'r trac hwn gynnwys y rhan a berfformir gan y cystadleuydd.
- 5 Caniateir i'r unawdwyr gitâr a drymiau ddefnyddio clic metronôm ('click track') yn yr oedrannau iau (Cynradd / Bl, 7, 8 & 9) ond dylid annog cystadleuwyr i fentro hebddo os yn bosib. Ni chaniateir defnyddio'r clic hwn yn yr oedrannau hŷn (Bl.10 i 13 ac 19-25 oed).
- 6 Rhaid uwchlwytho copi cyflawn o'r darn hunan-ddewisiad wrth gofrestru ar-lein. Y mae copi cyflawn yn cynnwys yr holl rannau o dan ei gilydd mewn sgôr ac mewn un ddogfen PDF yn hytrach na chyfres o luniau ffôn.

Unawd Offer Taro - Gall drymwyr yn yr Unawd Offer Taro ddarparu cynllun manwl (ar bapur) sy'n amlinellu prif nodweddion y perfformiad o adran i adran, yn hytrach na darparu copi cerddorol neu sgôr o'r gerddoriaeth.

Ensemble / Band / Cerddorfa - Disgwylir i bob ensemble, band neu gerddorfa ddarparu sgôr gyflawn o'u cerddoriaeth. Y mae sgôr yn cynnwys rhan pob offeryn o dan ei gilydd - nid set o gopïau offerynnau unigol.

- 7 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.

- 8 **Drymiau** - Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer llwyfan pob pafiliwn yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac ar lwyfan yr Unawd Offer Taro. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Serch hynny, ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch/ Rhanbarth.

Tympanau - Bydd yr Urdd yn darparu 3 tympan ar gyfer cystadleuaeth y cerddorfeydd os oes cais yn dod (trwy Swyddfa'r Urdd) erbyn Mawrth 2il - oni gwneir hynny, ni fydd yr Urdd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.

Piano - Un piano yn unig sydd ym mhob pafiliwn a hynny ar ochr chwith y llwyfan o safbwynt y gynulleidfa. Nid oes hawl ei symud i'r ochr arall.

- 9 Yr offerynnau disgwylidig ar gyfer yr Unawd Llinynnol yw'r ffidl, fiola, 'cello a'r bas dwbl; gyda'r Unawd Gitâr yn cynnwys y gitâr acwstig, trydan a bas, banjo, iwcaili a'r mandolin.

Beirniaid

Telyn: Glain Dafydd

Llinynnol: Bethan Habron-James

Chwythbrennau: Elin Angharad Roberts

Pres: Cai Isfryn

Piano: Iwan Wyn Owen

Gitâr: Euron Jones

Offer Taro: Robin Llwyd

Cerddoriaeth Greadigol: Arfon Wyn

Cerddoriaeth: Band/Artist unigol**Dyddiad cau cofrestru:** 2 Mawrth 2026**76 Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau****Dylid cyflwyno naill ai:**

a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig

neu

b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

77 Band/Artist Unigol Bl.7-13**Dylid cyflwyno naill ai:**

a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig

neu

b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

78 Band Gwerin Bl.7-13**Trefniant gwreiddiol o gerddoriaeth werin Gymreig.**

Cân / caneuon gwerin, alaw / alawon dawns traddodiadol Cymreig. Band Gwerin Offerynnol neu Fand Gwerin Offerynnol â llais/lleisiau.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Band/Artist Unigol

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn yr 2il o Fawrth.
- 3 Disgwylir i bob band / artist unigol uwchlwytho trac sain a geiriau o'r gân wrth gofrestru. Bydd y beirniaid yn dewis pump i ymddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhob cystadleuaeth.
- 4 Mae'n rhaid i bob cystadleuydd, gan gynnwys y cyfeilyddion, fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
- 5 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 6 Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir na churiad trydanol (e.e. ar allweddellau).
- 7 Bydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar un o lwyfannau'r maes. Bydd yr Urdd yn darparu amps a set o ddrymiau. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Danfonir e-bost at bob band gyda rhestr o'r offer cerddorol sydd ar gael i'w benthyg yn ystod y perfformiad.
- 8 Ni chaniateir perfformio trefniant o gân Gymraeg gyfoes mae'r unigolyn/band eisioes wedi ei chyhoeddi.

Beirniad: Meinir Gwilym

ADY: Perfformiad Cerddorol

Dyddiad cau cofrestru: 2 Mawrth 2026

- 79** Grŵp Cerddoriaeth Greadigol
Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu
Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)
- 'O Dan y Môr a'i Donnau'**
- Unrhyw nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud.
- Naill ai:**
- a) Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol ar y thema uchod. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd.
- neu:**
- b) Perfformiad lleisiol neu/ac offerynnol o'r gân 'Ar lan y Môr' (unrhyw drefniant).
- Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Ni chynhelir y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth. Cynhelir rhagwrandawiadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Gweler tudalen yng nghefn y Rhestr Testunau os am gystadlu. Dyddiad cau: y 2il o Fawrth.
- Beirniad:** Arfon Wyn

ADY: Perfformiad Corfforol

Dyddiad cau cofrestru: 2 Mawrth 2026

- 80** Dawns neu berfformiad theatrig i grŵp
i Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu
Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)
- 'O Dan y Môr a'i Donnau'**
- Unrhyw nifer. Heb fod yn hwy na 4 munud.
- Naill ai:**
- a) Dawns greadigol ar y thema uchod. Caniateir arweinwyr i gynorthwyo'r dawnsuwr.
- neu:**
- b) Perfformiad theatrig ar y thema uchod. Hyd at 4 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio'r llwyfan. Ni chynhelir y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth. Cynhelir rhagwrandawiadau yn y Sir/Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Gweler tudalen yng nghefn y Rhestr Testunau os am gystadlu. Dyddiad cau: y 2il o Fawrth.

ADY: Perfformiad Unigol

- 81** Perfformiad unigol dan 25 i ddisgyblion
ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu
Ychwanegol (Difrifol, Cymedrol a PMLD)
- Hunan-ddewisiad**
- Heb fod yn hwy na 2 funud. Perfformiad unigol gall gynnwys canu, llefaru, dawnsio, actio, dangos dawn neu stand up (neu gyfuniad o'r uchod).

Cerdd Dant

Dyddiad cau cofrestru: 9 Chwefror 2026

-
- 82** Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau **'Nain yn Hapus', Tony Llewelyn**
Perthyn Dim i'n Teulu Ni, Gwasg Carreg Gwalch
 Cainc: 'Yr Afon' (122), Haydn Morris
Telyn Cymru 1, Snell a'i Feibion
-
- 83** Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4 **'Hwyl y Ffair', Catrin Angharad Jones**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Murmur y Nant' (1122), Menai Williams
Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 84** Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6 **'Llaw', Tudur Dylan Jones**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Man Hyfryd' (1122), Gwennant Pyrs
Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Cyhoeddiadau Curiad
-
- 85** Deuawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau **'Heddiw', Tudur Dylan Jones**
Rhywun yn Rhywle, Y Lolfa / Gwasg Gomer
 Cainc: Rhos y Nant' (1122), Menai Williams
Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
 Detholiad penodol – Pennill 1,3,4 a 7 yn unig.
-
- 86** Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC) **'Un Blaned Gron', Robyn Llwyd ab Owain**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Maes y Caerau' (1122), Einir Wyn Jones
Ceinciau'r Heli, Cyhoeddiadau Sain
-
- 87** Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (D) **'Mae'r Byd fel mae yn well', Mererid Hopwood**
Byd Llawn Hud, Y Lolfa
 Cainc: 'Cefn Madryn' (1122), Glenda Davies
Ceinciau'r Ifanc
 Dim mwy na 12 mewn nifer.
 Mae rhyddid i ddefnyddio gosodiad personol, neu mae gosodiad ar gael o Adran yr Eisteddfod pe dymunir. Gweler rheolau cystadlu'r dysgwyr ar dudalen 8 y Rhestr Testunau.
 Pennill 1, 2, 4 a 6 yn unig.
-
- 88** Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad) **'Blwyddyn o Liwiau', Meirion MacIntyre Huws**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Penygraig' (1122), Bethan Bryn
Stelcian, Cyhoeddiadau Curiad
 Dim mwy na 30 mewn nifer.
-

89	Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Ad)	'Hidio dim am Idiom', Catrin Angharad Jones <u>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod</u> Cainc: 'Elin' (1122), Mona Meirion <i>Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd</i> Dim mwy na 12 mewn nifer.
90	Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9	'Mae gen i Freuddwyd', Gwyn Thomas <i>Sbectol Inc, Y Lolfa</i> Cainc: 'Ffridd Goch' (1122), Gwennant Pyrs <i>Cerddi a cheinciau'r Cwm</i> Hepgor y gwpled olaf.
91	Deuawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9	'Pan Dorro'r Wawr', Glyndwr Richards <i>Caneuon Ffydd (106), Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydwenadol</i> Cainc: 'Cynfal' (122), Mona Meirion <i>Bro Mebyd, Gwasg Gwynedd</i>
92	Unawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed	'Eloise', Geraint Lloyd Owen <i>Cerddi a Cheinciau'r Cwm</i> Cainc: 'Rhian' (1212), Mair Carrington Roberts <i>Cerddi a cheinciau'r Cwm</i>
93	Deuawd neu Driawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed	'Tonnau Cariad', Casi Wyn <u>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod</u> Cainc: 'Cae Gethin' (1122), Mair Carrington Roberts <i>Cerddi a cheinciau'r Cwm</i>
94	Grŵp Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed	'Ynys Llanddwyn', Emyr Huws Jones <i>Cerddi Mon, Y Lolfa / Gwasg Gomer</i> Cainc: 'Lowri' (1122), Menai Williams <i>Ceinciau'r Dyffryn, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> 4-8 mewn nifer. Hepgor y gwpled ' Gorwedd ar y traeth a theimlo heulwen yr haf, Paid a phoeni am y glaw, mae'r tonnau mor yn braf'.
95	Grŵp Cerdd Dant 19-25 oed	'Leah Owen', John Glyn Jones <i>Beirdd Bro'r Eisteddfod (2013), Barddas</i> Cainc: 'Ystumgwern' (1122), Gwennant Pyrs <i>Afon Lliw a Cheinciau eraill, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> 4-8 mewn nifer. Y Gerdd wedi nodi ar tudalen 66 o'r gyfrol.

-
- 96 Unawd Cerdd Dant 19–25 oed** **'Y Ddwygerdd Agos', Peredur Lynch**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Y Marial Gwyn' (1122), Morfudd Maesaleg
Ceiniciau Ddoe a Heddiw, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
 Detholiad Penodol.
-
- 97 Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19–25 oed** **'Gair o Gysur', Sian Owen**
[Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Beuno' (122), Gwennant Pyrs
Dwynwen a Cheinciau Eraill, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
-
- 98 Parti Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9** **'Gwerth y Byd', Eleri Richards**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod - [clicia yma](#).
 Cainc: 'Erwenni' (122), Einir Wyn Jones
Ceiniciau Penyberth, Urdd Gobaith Cymru
 Dim mwy na 20 mewn nifer.
-
- 99 Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Ad)** **'Ynys Afallon', Iwan Llwyd**
Sbectol Inc, Y Lolfa
 Cainc: 'Trefynach' (12), Owain Sion
Ceiniciau Llwyndyr, Cyhoeddiadau Sain
 Dim mwy na 20 mewn nifer.
 Rhaid cyplysu Pennill 1 a 2, yna Pennill 3 a 4.
-
- 100 Côr Cerdd Dant Bl.13 ac iau** **'Hawl i Fyw', Dafydd Iwan**
[Fersiwn arbennig a chopi ar gael o Adran yr Eisteddfod](#)
 Cainc: 'Llangefni' (1122), Nan Jones
Y Cennin Aur, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
 Dim mwy na 30 mewn nifer.
 Dim ond y fersiwn arbennig a dderbynnir.
-
- 101 Parti Cerdd Dant 14–25 oed (Ae)** **'Lle bo Iaith, bydd Cymdeithas', Gruffudd Antur**
Allwedd y Tannau 2013, Rhifyn 72, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
 Cainc: 'Coed Derw' (12212), Eleri Owen
Llety'r Bugail, Eleri Owen
 Dim mwy na 20 mewn nifer.
 Hepgor yr ail bennill.
-

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerdd Dant

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae canllawiau gosod ar gyfer cystadlaethau'r adran hon ar gael trwy gysylltu â Chymdeithas Cerdd Dant Cymru. www.cerdd-dant.org
- 3 Dilynwch drefniant pob cainc a nodir yn y Rhestr Testunau. Gellir ychwanegu triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, ond ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telynau swyddogol chwarae'r trefniant llawn.
- 4 Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Cerdd Dant dderbyn gwasanaeth telynorion swyddogol yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol ar y llwyfan (gweler eithriad yng nghystadlaethau rhifau 86, 87, 88, 89, 98, 99, 100 a 101). Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwasanaeth telynor i'r Eisteddfodau hyn, ond pe cyfyd anhawster fe ganiateir defnyddio piano. Rhaid sicrhau y bydd pob cystadleuydd yn perfformio o dan yr un amodau ym mhob achos. h.y. un cyfeilydd swyddogol ar gyfer y cystadleuaeth fel y nodwyd uchod.
- 5 Yng nghystadlaethau rhifau 86, 87, 88, 89, 98, 99, 100 a 101, rhaid defnyddio dwy delyn ar y llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd a'r telynor o dan 30 oed neu'r ail delynor swyddogol sydd a'i h/enw gyferbyn â'r gystadleuaeth. Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o ensemble a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o dan 30 oed. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.
- 6 Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.
- 7 Dylai'r cystadleuydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu.
- 8 Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa.
- 9 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 10 Mae rhyddid i'r gosodwyr / hyfforddwyr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, trillais ayyb fel y mynnant, ar wahân i pan nodir Parti Unsain.

Beirniaid: Gavin Ashcroft, Gwenan Gibbard, Llio Penri, Alwena Roberts, Mari Watkin, Iwan Morgan

Telynorion: Dylan Cernyw, Dafydd Huw, Meinir Llwyd Roberts, Elain Rhys, Elain Wyn, Beca Haf Williams (Cysgodi)

CogUrdd

Dyddiad cau cofrestru: 20 Hydref 2025

102 CogUrdd Bl.4, 5 a 6

103 CogUrdd Bl.7, 8 a 9

104 CogUrdd Bl.10 – Bl 13

105 CogUrdd 16–25 oed

106 PobUrdd Bl.4, 5 a 6

107 PobUrdd Bl.7 a dan 19 oed

Rheolau a Manylion Cystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid cofrestru pob cystadleuydd cyn cystadlu yng nghystadleuaeth CogUrdd. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru fydd 20 Hydref 2025.
- 3 Cyfrifoldeb yr ysgol/gangen fydd cynnal rownd ysgol erbyn 20 Hydref 2025
- 4 Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan eich Swyddog Cymunedol Lleol cyn 5 Rhagfyr 2025
- 5 Darperir Pecyn Beirniaid pwrpasol gyda chanllawiau a ffurflen feirniadaeth i'ch cynorthwyo gyda threfnu'r rownd gyntaf. Os hoffech dderbyn copi, cysylltwch â'ch Swyddog Cymunedol Lleol.
- 6 Dyddiad cau cofrestru ar gyfer CogUrdd 16-25 oed fydd 15 Rhagfyr 2025. Trefnir dyddiad rownd rhanbarthol gan Drefnydd Cynorthwyol Eisteddfod yr Urdd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Am fwy o fanylion, cliciwch ar y linc isod i weld y pecyn gwybodaeth.
- 7 Bydd pecyn gwybodaeth CogUrdd a PobUrdd ar gael o fis Medi ymlaen ar wefan Eisteddfod yr Urdd.
Pecyn Gwybodaeth CogUrdd - [Cliciwch yma](#)
Pecyn Gwybodaeth CogUrdd 16-25 oed - [Cliciwch yma](#)
Pecyn Gwybodaeth PobUrdd - [Cliciwch yma](#)

Dawnsio Gwerin

Dyddiad cau cofrestru: 26 Ionawr 2026

108	Dawns Werin Bl.4 ac iau	'Ffansi Ffarmwr' (tr. Trefniant Cymdeithas Ddawns Werin Cymru) <i>Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i> Caniatäer ailadrodd y ddawns hyd at 4 gwaith. Gellir defnyddio tri chwpl neu fwy.
109	Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed)	'Dafydd Gain' (tr. Trefniant Cymdeithas Ddawns Werin Cymru) <i>Dawnsiau Traddodiadol, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
110	Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion dros 100 o blant rhwng 4-11oed ac Adrannau)	'Bae Beaumaris', Ian Kendall <i>Pamffled - Bae Beaumaris, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
111	Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau Dim llai na 2 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Cyflwyniad gan 2 neu fwy o ddawnsywyr. Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws - gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniaid ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud
112	Dawns Werin Bl.7, 8 a 9	'Llangadfan Fach', Idwal Williams <i>Llangadfan Fach a Thair Dawns Arall, GIW</i>

113	Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed	Pont Abermo – Ian Kendall <i>Pamffled Pont Abermo, Cwmni Dawns Werin Caerdydd</i> neu ‘Rhos Fach’ – Eirlys Phillips <u>Y darn ar gael yma</u>
114	Dawns Werin Bl.9 a dan 25 oed (Ae/UAd)	Pont Cleddau – E. Cecily Howells <i>Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, ac erratum ar gael gan y Gymdeithas</i> neu: ‘Mympwy’r Etholiad’ - Rhodri Jones <i>Pamffled, Cwmni Dawns Werin Caerdydd</i> Rhaid i’r mwyafrif o’r aelodau fod o dan 25 oed, a phawb o dan 30 oed.
115	Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.9 ac iau	Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu’n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o’r alawon a ddefnyddir i’r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud
116	Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.9 ac iau	Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu’n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o’r alawon a ddefnyddir i’r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud
117	Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.10 ac o dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu’n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o’r alawon a ddefnyddir i’r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud.
118	Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.10 a dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu’n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o’r alawon a ddefnyddir i’r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud.
119	Dawns Stepio Grŵp Bl 9 ac iau (2 i 6 mewn nifer)	Hunan-ddewisiad Dawns ar gyfer 2 i 6 pherson gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu’n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5 Dylid cyflwyno rhestr o’r alawon a ddefnyddir i’r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 3 munud.

120 Dawns Stepio Grŵp BI 10 a dan 25 oed (2 i 6 mewn nifer)**Hunan-ddewisiad**

Dawns ar gyfer 2 i 6 pherson gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws – gweler Rheol Dawnsio Gwerin 5. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud.

121 Dawns Stepio BI.7 a dan 25 oed**Hunan-ddewisiad**

Cyflwyniad o ddawns draddodiadol a/neu gyfoes gan grŵp o ddawnsywyr cymysg heb fod yn llai na 6 pherson mewn nifer yn defnyddio arddull, camau a phatrymau Cymreig. Caniateir diwyg gyfoes o ran gwisg a cherddoriaeth. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Dim hwy na 4 munud. Rhaid i'r mwyafrif o aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Gwerin

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
- 3 Ni chaniateir i'r hyfforddwyr osod y dawnsywyr yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau Dawns ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Gweler Rheol Amser (3) tudalen 9. Caniateir i hyfforddwyr osod dawnsywyr os y dymunir ar lwyfan Eisteddfod Cylch a Rhanbarth.
- 4 Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau.
- 5 Yn ychwanegol at y brif alaw, caniateir defnyddio unrhyw alawon traddodiadol Cymreig neu wreiddiol draddodiadol eu naws (oni nodir yn wahanol) a fyddo'n addas fel cyfeiliant. Rhaid cyflwyno rhestr o'r alawon hyn 10 diwrnod cyn y perfformiad cyntaf. Dylid cychwyn a gorffen pob Dawns Werin gyda'r alaw wreiddiol, oni nodir yn wahanol.
- 6 Os na nodir rhif penodol o ddawnsywyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
- 7 Disgwylir i bartion ac unigolion wneud pob ymdrech i sicrhau cyfeiliant byw i'w dawns, ond caniateir defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw, oni nodir yn wahanol. Os bydd cydraddoldeb yn y dawnsio, yna fe ystyrir natur y cyfeiliant. Caniateir newid y cyweirnod.
- 8 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 9 Caniateir i bartion ddefnyddio hyd at dri chyfeilydd dros 25 oed ymhlith y cyfeilyddion.
- 10 Disgwylir i'r gwisgoedd, gan gynnwys esgidiau, ychwanegu at awyrgylch a chyfanrwydd y cyflwyniad
- 11 Wrth ffurfio partion dawnsio gwerin, dylid glynu at gyfarwyddiadau'r ddawns o ran cyfansoddiad y parti.

Beirniaid: Sion Gwilym, Gareth Rhun Jones, Nia Rees-Jones, Meinir Siencyn, Heledd Haf Williams (Dawnsio)

Dawns

Dyddiad cau cofrestru: 26 Ionawr 2026

122	Dawns Greadigol Bl.6 ac iau (YC/Ad)	Chwedlau Môn Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 3 munud
123	Dawns Aml-Gyfrwng Bl.6 ac iau	Crwydro Dim llai na 4 mewn nifer. Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull gyferbyniol. Dim hwy na 3 munud
124	Dawns Greadigol Bl.7 a dan 25 oed	Egni neu Melinau Dim llai na 4 mewn nifer. Dim hwy na 4 munud
125	Dawns Aml-Gyfrwng Bl.7 a dan 25 oed	Cymru Dim llai na 4 mewn nifer. Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull gyferbyniol. Dim hwy na 4 munud.
126	Dawns Unigol mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin. Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 2 funud.
127	Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim llai na 4 mewn nifer. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 3 munud. Ni chaniateir propiau o unrhyw fath.
128	Dawns Unigol mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin. Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 2 funud.
129	Grŵp HipHop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl. 7 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim llai na 4 mewn nifer. Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 3 munud. Ni chaniateir propiau o unrhyw fath.
130	Dawns Unigol Bl.10 a dan 19 oed mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin.	Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 2 funud.
131	Dawns Pâr neu Driawd mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 3 munud. Ni chaniateir propiau o unrhyw fath.

132 Dawns Unigol 19–25 oed mewn unrhyw arddull neu gyfuniad o arddulliau ac eithrio Dawnsio Gwerin.

Hunan-ddewisiad

Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Dim hwy na 2 funud. Gall hyn gynnwys ballet/ tap/ dawns gyfoes/ hip hop/ stryd / disgo / jazz neu gyfuniad o arddulliau (ac eithrio dawnsio Gwerin).

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawns

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon. Amseri'r y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
- 2 Gweler Rheol Amser ar dudalen 9.
- 3 Ni chaniateir i'r hyfforddwy'r osod y dawnsyw'r yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau Dawns ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- 4 Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 5 Disgwylir i'r dawnsyw'r wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
- 6 Arwynebedd perfformio llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw tua 10 x 8 metr.

Creadigol – Grŵp Ni chaniateir defnyddio Offer llwyfan, propiau na goleuadau arbennig, colur, ategolion corff a gwisg nac unrhyw gyfarpar arall. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru ac ni ddylid defnyddio symudiadau yn ystod y crynodeb. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

Dawns Aml-Gyfrwng – Grŵp – Dehongliad creadigol o thema drwy gyfrwng arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf tair arddull. Ceir defnyddio gwisgoedd addas a mân bropiau er mwyn dehongli'r thema a rhaid iddynt fod yn syml, addas, a chludadwy gan yr unigolyn fydd

yn eu defnyddio. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim hwy na 100 gair yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru ac ni ddylid defnyddio symudiadau yn ystod y crynodeb. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

- 7 Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth gyda'r un ddawns.
- 8 Rhaid bob symudiad fod o fewn cyd-destun yr arddull dawns ac i'r coreograffi ganolbwyntio ar y stepiau dawns.
- 9 Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnsyw'r yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.
- 10 Rhaid uwch lwytho crynodeb y ddawns greadigol a'r aml-gyfrwng ar Y Porth erbyn y dyddiad cau.
- 11 Rhaid darparu cyfeiliant ar ffurf MP3 neu WAY a chael copi caled CD neu USB rhag ofn. Ni ddylai hyd y trac fod yn hwy na'r hyd a nodir. Rhaid uwchlwytho y trac wrth gofrestru ar Y Porth erbyn y dyddiad cau.
- 12 Dim propiau yng nghystadlaethau grwpiau hip hop, stryd, disgo.

Beirniaid: Lois Glain Postle, Catherine Young, Sarah Thomas, Osian Meilir

Llefaru

Dyddiad cau cofrestru: 9 Chwefror 2026

133	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau	'Car Bach Hud', Tudur Dylan Jones <i>Rhywun yn Rhywle, Y Lolfa/Gomer</i>
134	Llefaru Unigol Bl.3 a 4	'Cymryd rhan sy'n bwysig', Meirion MacIntyre Huws Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod
135	Llefaru Unigol Bl.5 a 6	'Ben i Lawr', Anni Llŷn <i>Dim ond Traed Brain, Y Lolfa/Gomer</i>
136	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau	Heddiw', Tudur Dylan Jones <i>Rhywun yn Rhywle, Y Lolfa/Gomer</i> 6-12 mewn nifer.
137	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Ad)	'Ar y Wê', Tudur Dylan Jones <i>Rhywun yn Rhywle, Y Lolfa/Gomer</i> 6-12 mewn nifer. Ni chaniateir addasu'r dafodiaith yma.
138	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9	'Methu dianc', Myrddin ap Dafydd Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod
139	Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Ad)	'Etifeddiaeth', Gerallt Lloyd Owen <i>Sbectol Inc, Y Lolfa</i> 6-16 mewn nifer.
140	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9	'Parti ym mhobman', Caryl Parry Jones Lluniau yn fy mhen Atebol 6-16 mewn nifer.
141	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed	'Ac mae iaith weithiau', Aled Lewis Evans <i>Llinynnau, Cyhoeddiadau Barddas</i> Ni ddylid cynnwys y dyfyniad gan Dr Llion Jones
142	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed	'Myn Duw, mi wn y daw', Dafydd Iwan Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod 6-16 mewn nifer.
143	Llefaru Unigol 19-25 oed	'Mars Ynys Môn', Gareth Evans Jones <i>Cylchu Cymru, Y Lolfa</i>
144	Grŵp Llefaru dan 25 oed (Ae)	'Rebel Wicend', Emyr Huws Jones <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i> 6-16 mewn nifer.

145	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)	'Amser Gwely', Sion Emyr Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod
146	Llefaru Unigol Bl.3 a 4 (D)	'Reidio Beic', Anni Llŷn <i>Dim ond traed brain, Y Lolfa</i>
147	Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D)	'Hoffi'r Ysgol? Ydw... ond...!', Dorothy Jones <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
148	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (D)	'Heini', Margiad Roberts <i>Salwch Odli, Gwasg Carreg Gwalch</i> 6-12 mewn nifer.
149	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 (D)	'Y Gêm', Gwynne Williams Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod
150	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 (D)	'Waw, Glan Llyn', Dorothy Jones <i>Y Ddraig Groch, Gwasg Carreg Gwalch</i> 6-12 mewn nifer.
151	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed (D)	'A gymri di Gymru', Robat Gruffudd <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
152	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed (D)	'Ar y ffôn', Iwan Llwyd <i>Pac o Feirdd, Gwasg Carreg Gwalch</i> 6-12 mewn nifer.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.
- 3 Caniateir defnyddio cerddoriaeth ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 4 Ni chaniateir gordefnydd o iaith arall.
- 5 Yng nghystadlaethau'r Adran Llefaru, lle bo'r darn prawf wedi ei ysgrifennu mewn tafodiaith gref, caniateir rhai mân newidiadau i ynganiad geiriau er mwyn i'r darn swinio'n naturiol i'r glust yn nhafodiaith y cystadleuydd. Dylid, fodd bynnag, sicrhau bod yr addasiad yn gynnil ac angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw addasiadau, er mwyn bod yn driw i waith y llenor/bardd, effeithio ar fydr ac odl cerdd na newid ystyr

y darn prawf mewn unrhyw fodd. Lle bo'r darn mewn cynghanedd, ni chaniateir unrhyw newidiadau.

- 6 Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.
- 7 Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
- 8 Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.

Beirniaid: Haf Evans, Siôn Jenkins, Teleri Mair Jones, Medwen Pari, Geraint Hughes, Eleri Richards

Beirniaid Llefaru Dysgwyr: Nesta Davies, Linda'r Hafod, Rhian Hayes

Siarad Cyhoeddus

Dyddiad cau cofrestru: 2 Mawrth 2026

153 Tîm Siarad Cyhoeddus B1.10 a dan 19 oed

154 Tîm Siarad Cyhoeddus 14-25 oed (Ae)

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid cofrestru timau Siarad Cyhoeddus erbyn 2il Mawrth
- 3 Ar ôl eu perfformiad prawf Rhanbarthol, anfonir nodiadau bras at y timau a ddewisir i'r profion terfynol.
- 4 Wedi gweld yr holl dimau, bydd y beirniad yn dewis y timau gorau o blith y timau Ysgolion Uwchradd, a'r gorau o blith y timau Aelwydydd. Bydd y timau hyn yn ymddangos yn y profion terfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Hysbysir pob tîm, llwyddiannus ac aflwyddiannus, tua chanol Ebrill.
- 5 Rhaid i'r timau a ddewisir i'r profion terfynol gystadlu ar y dyddiad ac yn y drefn a benderfynir gan Drefnydd yr Eisteddfod.
- 6 Sylwer mai tîm Ysgol a thîm Aelwyd sydd i gystadlu. Yr Ysgol/Aelwyd yw'r uned, ac ni chaniateir benthycu perfformwyr o Ysgolion/Aelwydydd eraill. Caniateir 4 aelod mewn tîm.
- 7 Briff a Rheolau cystadlaethau Siarad Cyhoeddus - [cliciwch yma](#).

Beirniad: Llinos Medi AS

Theatr

Dyddiad cau cofrestru: 9 Chwefror 2026

155	Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau	'Trio: Antur yr Eisteddfod', Manon Steffan Ros <i>Atebol</i>
		2-4 mewn nifer. Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod – clicia yma . Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
156	Perfformiad Theatrig i Grwp Bl.6 ac iau	Thema: Croesi'r Bont neu Crwydro
		Rhwng 5 a 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Dim llai na 10 mewn nifer. Ni chaniateir canu.
157	Cân Actol Bl.6 ac iau Ysgolion â hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed (YC/Ad)	Thema: Glanio neu Yr Ymweliad
		Dim llai na 10 mewn nifer. Cyflwyniad na chymer fwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
158	Cân Actol Bl.6 ac iau Ysgolion â thros 100 o blant rhwng 4-11 oed (YC)	Thema: Trysor neu Dathliad
		Dim llai na 10 mewn nifer. Cyflwyniad na chymer fwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
159	Perfformiad Unigol o Gân Sioe Gerdd Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad
		Cân o sioe gerdd. Dim hwy na 3 munud. Y perfformiad yw'r elfen bwysig, sef cyfleu'r stori a'r cymeriad, nid cywirdeb i'r copi bob tro. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
160	Monolog Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad
		Monolog o ddrama, neu sgript wreiddiol. Dim hwy na 3 munud.
161	Perfformio Golygfa (2-4 mewn nifer) Bl. 7, 8 a 9	Unrhyw sgript o'r gyfrol 'Dewch i Draford', Manon Steffan Ros a Iola Ynyr Peniarth
		Neu Hunan-ddewisiad. (Detholiad o ddrama, nofel neu sgript wreiddiol - i 2-4 cymeriad) Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan

162	Perfformio Golygfa (5-10 mewn nifer) Bl. 7, 8 a 9	Dewis o un ai: 'Sblash', Branwen Davies. <i>Y Lolfa</i> Neu 'Heb Law Mam', Heiddwen Tomos <i>Y Lolfa</i> Neu 'Su' Mai Waaaa!', Gwenno Davies <i>Y Lolfa</i> <i>Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod - clicia yma</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
163	Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl.7, 8 a 9	Dewis o un ai: Cân: Gwilym - 'Neidia' Neu Cân: Fleur de Lys - 'Sbectol' Neu Thema: Taith Neu Delwedd gan Lisa Eurgain Taylor Delwedd gan Lisa Eurgain Taylor - Ymdaena'r Nos Dim llai na 10 mewn nifer. Hyd at 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio'r llwyfan
164	Perfformio Golygfa Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad 2-4 mewn nifer. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
165	Perfformiad Theatrig i Grŵp Bl. 10 a dan 19 oed	Dewis o un ai: Detholiad o gerdd 'Rhywbeth Cyfarwydd', Caryl Bryn - cliciwch yma Neu Delwedd gan Luned Rhys Parri - cliciwch yma Neu Cân: 'Hwyl 'ti Gymru', Fleur de Lys Neu Cân: 'Gyrru ni 'mlaen', Meinir Gwilym a Bwncath Dim llai na 10 mewn nifer. Hyd at 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

166	Detholiad o Ddrama Gerdd Bl.7 a dan 25 oed	Hunan-ddewisiad	Dim llai na 10 mewn nifer. Dim hwy na 12 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
167	Stand-Yp 14-25 oed	Hunan-ddewisiad	Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud.
168	Codi Hwyl Bl.7 a dan 25 oed		Hyd at 8 munud o adloniant ysgafn. Gall fod yn un neu gyfuniad o gyfryngau. Gall fod yn un o'r canlynol ond ddim yn cyfyngu: golygfa gomedi, cabaret, syrcas, drag, sioe hud a lledrith, Parkco, cân neu ganeuon comedi, sioe siarad, tafleisiaeth (ventriloquism) neu theatr gorfforol. Ni chaniateir stand yp yn y gystadleuaeth yma. 1-12 mewn nifer.
169	Monolog Bl.1 O a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad	Cyflwyno monolog na chymer fwy na 4 munud i'w pherfformio. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
170	Monolog 19-25 oed	Hunan-ddewisiad: 2 fonolog Gyferbyniol (1 yn wreiddiol Gymraeg)	Dim hwy na 6 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu. Gweler awgrymiadau o fonologau yma
171	Perfformiad o gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad	Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu
172	Perfformiad o gân Sioe Gerdd 19-25 oed	Hunan-ddewisiad	Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu
173	Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed	Hunan-ddewisiad	2-6 mewn nifer. Perfformiad o olygfa neu gân o sioe gerdd. Dim hwy na 4 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu

174 Côr Sioe dan 25 oed**Hunan-ddewisiad**

Un darn i'w ganu yn y Gymraeg

Dim llai na 20 mewn nifer. Dim hwy na 4 munud

Trefniant gorawl o gân (neu ganeuon) wreiddiol Gymraeg o sioe, cân bop/roc/ysgafn neu jazz. Gall fod yn drefniant arbennig neu yn berfformiad o ddarn sydd eisoes yn bodoli.

Ni chaniateir i unrhyw gôr berfformio darn sy'n ddarn prawf yn yr Eisteddfod hon nac ychwaith ganu'r un trefniant mewn cystadleuaeth 'hunan-ddewisiad' arall.

Gweler Rheol 5 a 7 isod

175 Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau (D)**Detholiad o 'Sara Mai ac Antur y fferm', Casia William**

Y Lolfa

2-4 mewn nifer. Hyd at 5 munud

176 Cân Actol Bl.6 ac iau (D)**Thema: Gwobr neu Parti**

Dim llai nag 8 mewn nifer. Cyflwyniad na chymer fwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

177 Perfformio Golygfa Bl.7, 8 a 9 (D)**Detholiad o 'Dirgelwch y Bont', Hywel Griffiths**

Atebol

2-4 mewn nifer. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Theatr

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad. Diffinnir prop a set fel eitem neu offer y gall un cystadleuydd ei gario i ac o'r llwyfan.
- Amserir y perfformiad o'r sain neu'r ystum cyntaf nes bo'r cystadleuwyr wedi gadael y llwyfan ac eithrio cystadlaethau Unawdau ac Ensemble Sioe Gerdd lle gorffennir yr amseru ar y nodyn olaf. Gweler Rheol Amser (3) tudalen 9.
- Bydd 5 meicroffon ar lwyfan y Genedlaethol a bydd yn bosibl defnyddio hyd at 4 meicroffon radio ac eithio'r gystadleuaeth Ensemble o Gan Sioe Gerdd a Detholiad o Ddrama Gerdd lle caniateir hyd at 6 meicroffon radio.
- Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddarn y maent wedi'i berfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros y tair blynedd diwethaf.
- Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant yn unig. Nid oes rhaid i'r cyfeilyddion fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad, cerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol, o fewn y perfformiad. Anogir cystadleuwyr i ddefnyddio cerddoriaeth wreiddiol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- Ni chaniateir gordefnydd o iaith arall.
- Perfformio Golygfa 2-4 mewn nifer** Cyflwyniad gan 2-4 mewn nifer o sgript osodedig neu sgript hunan-ddewisiad yn ddibynnol ar y gystadleuaeth o dan sylw. Dylid sicrhau bod hyd perfformio y sgript hunan-ddewisiad yn ddim mwy na 5 munud. Mae hawl gan yr hyfforddwr

i newid ac addasu acen. Caniateir newid rhyw'r cymeriad os yw hynny yn gwneud synnwyr ac yn gydnaws â'r sgript. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml. Gweler Rheol Amser (3) tudalen 9.

- 10 Cân Actol - Bl.6 a iau** Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar ganu ac actio. Dylai'r gerddoriaeth lifo drwy'r perfformiad cyfan. Gall y geiriau a'r alawon fod yn wreiddiol, wedi eu cyhoeddi neu'n gyfuniad o'r ddau. Rhaid sicrhau hawlfraint os yn defnyddio cerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml.
- 11 Perfformiad Theatrïg i Grŵp Bl.6 a iau** Perfformiad o sgript ar thema osodedig gan grŵp. Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar yr elfen ddramatig. Caniateir defnyddio gwaith megis darnau o ddrama yn ogystal â gwaith gwreiddiol. Caniateir y defnydd o gerddoriaeth gefndirol i ychwanegu at yr awyrgylch yn unig. Nid oes hawl canu yn y gystadleuaeth yma a dylid pwysleisio nad y gerddoriaeth yw'r elfen bwysicaf o'r gystadleuaeth. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml.
- 12 Perfformio Golygfa Bl 7, 8 a 9 5-10 mewn nifer** Hyd - 5 munud Rhwng 5-10 mewn nifer. Rhaid dewis golygfa / digwyddiad o'r ddrama gosod. Rhaid i holl gynnwys y perfformiad ddeillio o'r ddrama. Gallwch gyflwyno yr olygfa yn defnyddio unrhyw dechnegau/ arddulliau theatrig. Nid yw'r gystadleuaeth yn gofyn am berfformio y stori gyfan. e.e. Gallwch rannu y naratif rhwng yr holl grŵp, defnyddio corws, defnyddio tableaux, symudiadau, pypedau, neu unrhyw beth fydd yn creu perfformiad ac adloniant i'r gynulleidfa. Caniateir defnyddio mân offer, gwisgoedd a cherddoriaeth. Rhaid cael hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir.
- 13 Perfformiad Theatrïg i Grŵp Bl.7 8, a 9 a Bl.10 a dan 19** Hyd - rhwng 5 a 10 munud. Dim llai na 10 mewn nifer. Dehongliad theatrig o un o'r ysgogiadau gosod. Gall fod yn gerddoriaeth i gyd, yn lefaru i gyd, neu'n gyfuniad o'r ddau. Gall y perfformiad gynnwys deunydd gwbl wreiddiol neu ddeunydd gan awduron neu gyfansodwyr eraill. Caniateir mân offer a gwisg. Rhaid cael hawlfraint unrhyw ddeunydd a ddefnyddir.
- 14 Perfformiad o Gân Sioe Gerdd** Cyfrifoldeb yr unadwydd yw sicrhau hawlfraint perfformio gan y cwmni cyhoeddi perthansol. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu uwchlwytho tystiolaeth o'r hawlfraint / caniatâd wrth gofrestru.
- 15 Monolog Bl.7,8 a 9, Bl.10 a dan 19 oed a 19-25 oed** Cyflwyniad(au) o ddrama, darn o ryddiaith sydd wedi ei(u) cyhoeddi neu waith gwreiddiol addas. Caniateir gwisgoedd ac offer syml ar gyfer y perfformiad.
- 16 Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl 10 a dan 25 oed** Perfformiad hyd at 5 munud gan 2 neu hyd at 6 aelod o gân neu olygfa o Sioe Gerdd. Rhaid i bob aelod gynrychioli cymeriad unigol yn ystod y cyflwyniad. Oherwydd rhesymau hawlfraint

bydd angen gwirio gyda'r cyhoeddwr os am ddefnyddio gwisgoedd ac offer sydd yn efelychu cynhyrchiadau llwyfan. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi recordio ymlaen llaw, ond cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint.

- 17 Stand-yp** Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud. Cynhelir y gystadleuaeth ar Lwyfan y Maes, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Nid oes rhaid cyflwyno sgript o flaen llaw ond rhaid i'r cynnwys fod yn weddus ac nid yn enllibus.
- 18 Detholiad o Ddrama Gerdd** Nid oes rhaid cyflwyno'r stori yn gyflawn a gellid canu rhannau o ganeuon ond dylid ceisio sicrhau bod y cyflwyniad yn llifo i greu cyfanwaith. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint perfformio. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler Hunan-ddewisiad a Hawlfraint ar dudalen 11.
- 19 Codi Hwyl Bl 7 a dan 25 oed -** Bydd gofyn i unrhyw sgript a berfformir fod yn wreiddiol. Cyfrifoldeb y cystadleuydd / cystadleuwyr yw trefnu caniatâd o ran hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir. Amser: hyd at 8 munud o berfformiad. Caniateir 5 munud i osod a chlirio'r llwyfan. Nifer: Unigolyn neu grŵp (hyd at 12 mewn nifer) Amlinellad: Yn ddibynnol ar nifer y cystadleuwyr, efallai na fydd yn bosibl i bob ymgeisydd berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd felly bydd gofyn i bob ymgeisydd ddarparu clip fideo (dim mwy na 4 munud o hyd) neu ddogfen ysgrifenedig erbyn Mawrth 2ail yn amlinellu cynnwys y perfformiad, nifer y perfformwyr ac unrhyw anghenion o ran llwyfannu. Bydd Adran yr Eisteddfod yna yn cysylltu a'r cystadleuwyr buddugol i wahodd nhw i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Beirniaid: Iddon Alaw, Huw Garmon,
Mared Elliw Huws, Gwion Morris Jones,
Elain Llwyd, Lowri Mererid, Meilir Rhys Williams

Trin Gwallt a Harddwch

Dyddiad cau cofrestru: 15 Rhagfyr 2025

178 Lefel 1 / Mynediad Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed Thema: Parti

179 Lefel 1 / Mynediad Harddwch Bl.10 a dan 25 oed Thema: Parti

180 Lefel 2 a 3 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed

181 Lefel 2 a 3 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch

Trefn y gystadleuaeth

- 1 Trefnir rownd Rhanbarthol cyn diwedd mis Ebrill 2026 os oes angen.
- 2 Cynhelir y rownd derfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd mewn lleoliad ar y maes.

Rheolau Cystadlu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw darparu offer a model eu hunain er mwyn cwblhau'r dasg ymhob rownd.

- 3 Darperir un soced drydanol ar gyfer bob cystadleuydd ymhob rownd.
- 4 Darperir bwrdd a chadair ar gyfer pob cystadleuydd ymhob rownd.
- 5 Mae'r pecynnau gwybodaeth ar gyfer y cystadlaethau yma ar wefan Eisteddfod yr Urdd

Clic!
Gallwch glicio ar unrhyw
un o'r adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg

Cystadlaethau ADY	52
Cynllunio Crys-T.....	53
Cymeriad Cartŵn	53
Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au)	54
Llun 2D	54
Gwaith Creadigol 2D.....	54
Graffeg Cyfrifiadurol	55
Ffotograff Wedi'i Addasu.....	55
Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn.....	55
Ffotograffiaeth: Llun Lliw.....	56
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn.....	56
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw.....	56
Argraffu.....	57
Addurno ar ffabrig.....	57
Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig.....	58
Ffasiwn.....	58
Pypedau.....	59
Gwaith 3D	59
Uwchgylchu.....	60
Serameg.....	60
Gemwaith.....	61
Dylunio a Thechnoleg.....	61
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed.....	62
Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed.....	62

Adran Cyfansoddi

Cyfansoddi: Cerddoriaeth.....	63
Cyfansoddi: Cerdd Dant.....	64
Cyfieithu	65
Darlunio Llyfr Stori-a-llun.....	66
Creu Ap.....	66
Creu Gwefan	67
Cynnwys Digidol.....	67

Ffilm	68
Gofal Plant	69
Prosiect Gwyddonol.....	69
Llenyddiaeth	70

Adran y Dysgwyr

Dysgwyr.....	74
Dysgwyr: Cyflwyniad/Sgwrs Wedi'i Recordio	75

Cystadlaethau Amrywiol

Cystadleuaeth Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd.....	76
Ysgoloriaeth Geraint George	76
Meithrin Talent - Talent Meithrin	77
Newyddiaduriaeth	77
Cystadleuaeth ysgrifennu traethawd Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.....	78
Cyfansoddi: Drama	78
Eisteddfod T.....	79

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg

Terminoleg yr Adran

Celf Dylunio a Thechnoleg = CDT

Anghenion Dysgu Ychwanegol = ADY

Gwaith Grŵp = Gwaith gan 2 aelod neu fwy

- 1 **Rheolau Cyffredinol** – Mae'r Rheolau Cyffredinol sydd ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 **Cystadlu** – Rhaid i bob darn o waith yn yr Adran CDT fynd drwy rowndiau Cylch / Rhanbarth. Bydd y gwaith a gaiff y wobwr gyntaf ymhob cystadleuaeth yn yr adran Gynradd, ac y cyntaf a'r ail o'r adran Uwchradd ac Aelwydydd o bob Rhanbarth yn mynd ymlaen i rownd feirniadu'r Genedlaethol.
- a **Medal CDT** – Dyfernir y Fedal CDT i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno gwaith mwyaf addawol o blith holl gynnyrch B1.10 a dan 19 oed sy'n cyrraedd y Rownd Feirniadu Genedlaethol.
- b **Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc B1.10 a dan 25 oed** – Gwahoddir holl gystadleuwyr Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc i Rownd Feirniadu Genedlaethol arbennig gan hepgor ymddangos mewn rownd feirniadu Cylch / Rhanbarth.
- c **Cynnyrch** – Rhaid i'r holl ddarnau a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol a grëwyd gan y cystadleuydd/wyr, gyda label swyddogol cofrestru CDT yr Urdd wedi ei atodi, sy'n cynnwys llofnod oedolyn (dros 18 oed) i dystio bod hyn yn wir.
- 3 **Dyddiad Beirniadu Rhanbarth** – Trefnir dyddiad y beirniadu Rhanbarthol cyn canol Mai. Cysylltwch â'ch trefnydd lleol i gadarnhau'r dyddiad.
- 4 **Cofrestru** – Cofrestru erbyn 20 Ebrill 2026. Bydd angen labelu pob darn o waith, gan ddefnyddio'r label a ddarperir wrth gofrestru.
- 5 **Nifer** – Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr un adran ac eithrio'r gystadleuaeth Darluniau ar gyfer llyfr stori-a-llun ar dudalen 66.
- 6 **Maint** – Maint pob eitem a Gwaith 2D: Dim mwy 760mm x 560mm b Gwaith 3D: Dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm c Gwaith Cerameg/Crochenwaith: Dim mwy na 400mm x 400mm x 400mm

Diffiniad Gwaith 3D – Gwrthrych sy'n weledol o bob cyfeiriad (ac eithrio'r gwaelod os yw'n sefyll ar lawr) ac yn cynnal ei hun.

Diffiniad Gwaith 2D – Gwaith tenau/fflat sydd yn addas i'w hongian ar wal.

- 7 **Ffotograffiaeth** – Ni chaniateir cyflwyno yr un ffotograff mewn mwy nag un gystadleuaeth. Nid oes modd cynnwys ffotograff o gystadleuaeth unigol mewn cystadlaethau cyfres o luniau. Nid oes modd cyflwyno'r un ffotograff mewn cystadleuaeth lliw a chystadleuaeth du a gwyn.
- 8 **Pwysau** – Ni all unrhyw eitem Gwaith 3D bwysu mwy na 12kg ac eithrio gwaith Ysgoloriaeth yr Artist yr Ifanc B1.10 a dan 25 oed
- 9 **Mowntio** – Er mwyn diogelu'r gwaith, caniateir mowntio ar bapur neu garden os oes angen. Ni chaniateir defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer gwaith 2D ac eithrio lle mae ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythur y gwaith. Caiff y gwaith buddugol ei fowntio'n broffesiynol ar gyfer yr arddangosfa.
- 10 **Anghenion Dysgu Ychwanegol** – Diffinnir 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) yn unol â rheolau'r Awdurdod Addysg Leol.
- 11 **Cyhoeddi** – Bydd gan yr Urdd yr hawl i ddefnyddio neu gyhoeddi delweddau y cynnyrch a ddyfernir yn fuddugol yn yr adran CDT yn y dyfodol heb geisio caniatâd yr artist.
- 12 **Colled neu ddifrod** – Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod anorfod a all ddigwydd o safbwynt cludo gwaith i'r Beirniadu Cenedlaethol ac i/o Faes yr Eisteddfod. Os oes gwerth mawr i'r cynhyrchion neu os yw'r cynhyrchion yn fregus, mae croeso i gystadleuwyr wneud trefniadau eu hunain i gludo'r gwaith.

Beirniaid: Rhian Cahill, Stephen Edwards, Arwyn Herald, Carys Jones, Beth Roberts, Ellen Thorpe, Diana Williams

Angen ysbrydoliaeth? [Clícia yma!](#)

Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg

Cystadlaethau ADY

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

182	ADY: Llun 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Breuddwydion
183	ADY: Llun 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol	Agored
184	ADY: Llun 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol	Agored
185	ADY: Llun 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Breuddwydion
186	ADY: Llun 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys	Agored
187	ADY: Llun 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys	Agored
188	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Breuddwydion
189	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (Grŵp)	Breuddwydion
190	ADY: Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 ac iau A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
191	ADY: Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
192	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Breuddwydion
193	ADY: Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys (Grŵp)	Breuddwydion
194	ADY: Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 ac iau A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
195	ADY: Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
196	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Breuddwydion

197	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (grŵp)	Breuddwydion
198	ADY: Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
199	ADY: Gwaith 3D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
200	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Breuddwydion
201	ADY: Gwaith 3D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys (grŵp)	Breuddwydion
202	ADY: Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
203	ADY: Gwaith 3D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
204	ADY: Darn o waith celf wedi'i gyflwyno gyda phortffolio o'r broses creu i unigolyn neu grŵp PMLD	Agored

Cynllunio Crys-T

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cynllunio Crys-T (blaen ar A4, cefn ar A4, a'i gyflwyno ar darn A3) i gyfleu unrhyw agwedd neu agweddau o'r thema. Gallwch lawrlwytho [templed o grys T gwag](#).

205	Cynllunio Crys-T Bl.2 ac iau	Breuddwydion
206	Cynllunio Crys-T Bl.3 a 4	Breuddwydion
207	Cynllunio Crys-T Bl.5 a 6	Breuddwydion
208	Cynllunio Crys-T Bl.7, 8 a 9	Agored

Cymeriad Cartŵn

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Dyfeisio cymeriad cartŵn newydd gan dynnu llun o'r cymeriad ac ysgrifennu darn amdano heb fod yn hwy na 150 gair. Cynhelir y gystadleuaeth hon er cof am y cartwnydd, Cen Williams. Drwy gefnogaeth ei deulu, bydd yr enillydd derbyn sesiwn mentora i ddatblygu eu crefft dylunio.

209	Cymeriad Cartŵn Bl.6 ac iau	Agored
-----	-----------------------------	--------

Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au)

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyflwyno tudalen gomig gyda chymeriad(au) sy'n ffitio oddi-mewn i dudalen dim mwy na A3. Cynhelir y gystadleuaeth hon er cof am y cartwnydd, Cen Williams. Drwy gefnogaeth ei deulu, bydd yr enillydd derbyn sesiwn mentora i ddatblygu eu crefft dylunio.

210 Tudalen Gomic Bl.7, 8 a 9 Agored

211 Tudalen Gomic Bl.10 a dan 19 oed Agored

Llun 2D

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Creu llun 2D sy'n addas i'w hongian ar wal, gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma: Pensil, Inc, Creon, Pastel neu Baent i fesur dim mwy na 760mm × 560mm.

212 Llun 2D Bl.2 ac iau Breuddwydion

213 Llun2D Bl.3 a 4 Breuddwydion

214 Llun 2D Bl.5 a 6 Breuddwydion

215 Llun 2D Bl.7, 8 a 9 Agored

216 Llun 2D Bl.10 a dan 19 oed Agored

Gwaith Creadigol 2D

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyflwyno unrhyw waith 2D wedi ei ludo ar gefndir fflat (e.e. cerdyn, bwrdd, teil, gwydr, plastig neu fetel), i greu gludlun (collage) neu fosaig. Byddai gwaith yn y categori hwn yn addas i'w hongian ar wal, ac yn mesur dim mwy na 760mm × 560mm.

217 Creadigol 2D Bl.2 ac iau Breuddwydion

218 Creadigol 2D Bl.3 a 4 Breuddwydion

219 Creadigol 2D Bl.5 a 6 Breuddwydion

220 Creadigol 2D Bl.6 ac iau (Grŵp) Breuddwydion

221 Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

222 Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Graffeg Cyfrifiadurol

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Gwaith gwreiddiol wedi ei greu ar unrhyw ddyfais ddigidol i fesur dim mwy na A4.

223 Graffeg Cyfrifiadurol Bl.2 ac iau Breuddwydion

224 Graffeg Cyfrifiadurol Bl.3 a 4 Breuddwydion

225 Graffeg Cyfrifiadurol Bl.5 a 6 Breuddwydion

226 Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9 Agored

227 Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed Agored

Ffotograff Wedi'i Addasu

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Addasu ffotograff eich hun i greu delwedd ddigidol newydd. Gellir defnyddio sganiwr ac unrhyw feddalwedd i olygu a chreu un darn o waith gorffenedig i fesur tua A4 (e.e. 10"×8" neu 12"×10"). Rhaid cynnwys y ffotograff gwreiddiol gyda'r gwaith.

228 Ffotograff wedi'i addasu Bl.6 ac iau Breuddwydion

229 Ffotograff wedi'i addasu Bl.7, 8 a 9 Agored

230 Ffotograff wedi'i addasu Bl.10 a dan 19 oed Agored

Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Un llun ffotograff du a gwyn neu fonocrom i fesur tua A4 (e.e. 10"×8" neu 12"×10"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

231 Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.2 ac iau Breuddwydion

232 Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.3 a 4 Breuddwydion

233 Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.5 a 6 Breuddwydion

234 Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9 Agored

235 Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed Agored

Ffotograffiaeth: Llun Lliw

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Un llun ffotograff lliw i fesur tua A4 (e.e. 10"×8" neu 12"×10"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

236 Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.2 ac iau Breuddwydion

237 Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.3 a 4 Breuddwydion

238 Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.5 a 6 Breuddwydion

239 Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.7, 8 a 9 Agored

240 Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.10 a dan 19 oed Agored

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyfres o 4 ffotograff du a gwyn neu fonocrom. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7"×5"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

241 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.2 ac iau Breuddwydion

242 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.3 a 4 Breuddwydion

243 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.5 a 6 Breuddwydion

244 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9 Agored

245 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed Agored

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyfres o 4 ffotograff lliw. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7"×5"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

246 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau Breuddwydion

247 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.3 a 4 Breuddwydion

248 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.5 a 6 Breuddwydion

249 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.7, 8 a 9 Agored

250 Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.10 a dan 19 oed Agored

Argraffu

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Argraffu ar unrhyw ddeunydd gan ddefnyddio un neu gyfuniad o gyfryngau e.e. Leino, Pren, Plastig, Papur, Ffabrig neu Fetel i fesur dim mwy na 760mm × 560mm.

251 Argraffu Bl.2 ac iau Breuddwydion

252 Argraffu Bl.3 a 4 Breuddwydion

253 Argraffu Bl.5 a 6 Breuddwydion

254 Argraffu Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

255 Argraffu Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

256 Argraffu Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Addurno ar ffabrig

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Addurno ar ffabrig 2D neu 3D gan ddefnyddio unrhyw dechneg neu gyfuniad o dechnegau megis: Paentio, Print, Pwyth, Clymu a Llifo, Batic, Argraffu Bloc, Brodwaith (â llaw neu â pheiriant) neu Ddefnyddio Cyfrifiadur, i fesur dim mwy na 750mm × 750mm × 750mm.

257 Addurno ar ffabrig Bl.2 ac iau Breuddwydion

258 Addurno ar ffabrig Bl.3 a 4 Breuddwydion

259 Addurno ar ffabrig Bl.5 a 6 Breuddwydion

260 Addurno ar ffabrig Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

261 Addurno ar ffabrig Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

262 Addurno ar ffabrig Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Creu gwaith 2D neu 3D sy'n defnyddio deunyddiau a thechnegau megis: Ffeltio, Gwau â Llaw neu â pheiriant, Gwnïo â llaw neu â pheiriant, Crosio neu wehyddu, i fesur dim mwy na 750mm × 750mm × 750mm.

263 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.2 ac iau Breuddwydion

264 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.3 a 4 Breuddwydion

265 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.5 a 6 Breuddwydion

266 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

267 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

268 Creu ffabrig neu greu eitem allan o ffabrig Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Ffasiwn

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Creu eitem o'r newydd i'w wisgo gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau.

269 Ffasiwn Bl.6 ac iau Breuddwydion

270 Ffasiwn Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

271 Ffasiwn Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

272 Ffasiwn Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Pypedau

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Hyd at 3 phyped o unrhyw fath megis: bys, llaw neu ar llyn. Dylai pyped ar llyn gael ei gyflwyno mewn ffrâm bwrpasol ddiaddurn er mwyn ei hongian/arddangos yn unig. Ni fydd unrhyw addurniadau neu ategolion i'r ffrâm yn cael eu beirniadu fel rhan o'r gwaith. Ni ddylai dimensiwn y ffrâm i gynnal y pypedau fod yn fwy na 750mm × 750mm × 750mm.

273 Pyped Bl.2 ac iau Breuddwydion

274 Pyped Bl.3 a 4 Breuddwydion

275 Pyped Bl.5 a 6 Breuddwydion

276 Pyped Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

277 Pyped Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

278 Pyped Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Gwaith 3D

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyflwyno gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau. Byddai gwaith yn y categori yma yn weledol o bob cyfeiriad (ac eithrio'r gwaelod os yw'n sefyll ar lawr) ac yn cynnal ei hun, ac yn mesur dim hwy na 750mm × 750mm × 750mm a phwyso llai na 12kg.

279 Gwaith 3D Bl.2 ac iau Breuddwydion

280 Gwaith 3D Bl.3 a 4 Breuddwydion

281 Gwaith 3D Bl.5 a 6 Breuddwydion

282 Gwaith 3D Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

283 Gwaith 3D Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

284 Gwaith 3D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Uwchgylchu

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Uwchgylchu unrhyw wrthrych/au i greu darn newydd. Rhaid cynnwys ffotograff(au) o'r gwrthrych(au) gwreiddiol fel tystiolaeth o'r camau a gymerwyd. Y gwaith gorffenedig i fesur dim hwy na 750mm x 750mm

285 Uwchgylchu Bl.2 ac iau Breuddwydion

286 Uwchgylchu Bl.3 a 4 Breuddwydion

287 Uwchgylchu Bl.5 a 6 Breuddwydion

288 Uwchgylchu Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

289 Uwchgylchu Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

290 Uwchgylchu Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Serameg

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Rhaid sicrhau fod y clai wedi cael o leiaf un taniad bisged mewn olyn a chaniateir defnyddio clai awyr sych. Dylai'r gwaith ffitio i ffrâm neu focs 400mm x 400mm x 400mm

291 Serameg Bl.2 ac iau Breuddwydion

292 Serameg Bl.3 a 4 Breuddwydion

293 Serameg Bl.5 a 6 Breuddwydion

294 Serameg Bl.6 ac iau (grŵp) Breuddwydion

295 Serameg Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp) Agored

296 Serameg Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp) Agored

Gemwaith

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Gemwaith gwreiddiol mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau.

297	Gemwaith Bl.2 ac iau	Breuddwydion
298	Gemwaith Bl.3 a 4	Breuddwydion
299	Gemwaith Bl.5 a 6	Breuddwydion
300	Gemwaith Bl.6 ac iau (grŵp)	Breuddwydion
301	Gemwaith Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
302	Gemwaith Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Dylunio a Thechnoleg

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyflwyno gwaith Dylunio a Thechnoleg i fesur dim hwy na 750mm × 750mm × 750mm a phwyso llai na 12kg. Rhaid cynnwys cyflwyniad cefndirol ysgrifenedig a thystiolaeth yn egluro'r camau wrth gyflwyno'r gwaith.

303	Dylunio a Thechnoleg Bl.2 ac iau	Breuddwydion
304	Dylunio a Thechnoleg Bl.3 a 4	Breuddwydion
305	Dylunio a Thechnoleg Bl.5 a 6	Breuddwydion
306	Dylunio a Thechnoleg Bl.6 ac iau (grŵp)	Breuddwydion
307	Dylunio a Thechnoleg Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
308	Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Dyfernir y Fedal i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno'r gwaith mwyaf addawol o blith enillwyr cenedlaethol holl gynnyrch yr adran Bl.10 a dan 19 oed. Mae'r gystadleuaeth hon, ar gyfer cystadlaethau unigol yn unig. Dyma rifau'r cystadlaethau sy'n gymwys ar gyfer y Fedal: 211, 216, 222, 227, 230, 235, 240, 245, 250, 256, 262, 268, 272, 278, 284, 290, 296, 302 a 308.

309 Darn o waith celf – cystadleuaeth i bobl ifanc rhwng 19 a 25 oed. **Agorod**

Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed

Dyddiad cau cofrestru: 20 Ebrill 2026

Cyflwyno gwaith Celf, Dylunio neu Dechnoleg mewn unrhyw gyfrwng neu gasgliad o gyfryngau. Rhaid cynnwys detholiad o'r portffolio neu grynodedb ysgrifenedig yn y Gymraeg i gydfynd a'r gwaith.

Wrth gofrestru i gystadlu rhaid cyflwyno:

- Hyd at 6 llun ffotograff o'r gwaith NEU fideo hyd at 1 munud yn cyflwyno'r gwaith.
- Yn ogystal â 250 o eiriau yn esbonio'r syniadau/prosesau NEU ddetholiad hyd at 4 tudalen o lyfr braslunio.

Defnyddir yr ysgoloriaeth gwerth £2000 i alluogi'r enillydd i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf cydnabyddedig neu yn fuddsoddiad er mwyn i'r artist buddugol ddilyn gyrfa yn y maes hwnnw.

310 Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed **Agorod**

Adran Gwaith Cartref

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Gwaith Cartref

1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd yr awduron na thalu unrhyw freindal na thaliad arall.

2 Mae holl gynnyrch cystadlaethau llenyddol a chyfansoddi Eisteddfod yr Urdd yn cael eu beirniadu ar lefel genedlaethol, ar wahân i gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg

6 Caniateir ennill y Gadair, y Goron, y Fedal Ddrama, Medal y Dysgwyr, Y Fedal Gyfansoddi hyd at deirgwaith.

3 Oni nodir yn wahanol, gwaith ar gyfer unigolion yw'r cystadlaethau.

7 Rhaid i'r gwaith a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol yr awdur/ cyfansoddwr, sydd heb ei gyhoeddi o'r blaen mewn unrhyw ffordd naill ai'n gyfan neu'n rhannol.

4 Rhaid uwchlwytho holl gynnyrch yr adran hon i'r Porth, ar wahân i gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg wrth gofrestru erbyn 2il o Fawrth, 2026.

8 Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i olygu unrhyw waith sydd yn cael ei farnu yn addas i'w gyhoeddi yn y Cyfansoddiadau.

5 Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r cyfansoddiadau cerddorol a llenyddol a ddyfernir yn fuddugol a'u defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y

9 Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr adran.

311	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau	Cyfansoddiad lleisiol a/neu offerynnol. Beirniad: Einion Dafydd Caniateir cywaith Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 316.
312	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7, 8 a 9	Cyfansoddi cân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd. Beirniad: Catrin Angharad Jones Caniateir gwaith unigol neu gywaith. Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 316.
313	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 ac 11	Cyfansoddi darn o gerddoriaeth (mewn unrhyw gyfrwng) gyda chyswllt Cymreig Beirniad: Elain Rhys Heb fod yn hwy na 5 munud. Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 315 a 316.
314	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.12 a 13	Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd Beirniad: Beti Rhys Heb fod yn hwy na 5 munud. Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 315 a 316.
315	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 a dan 19 oed	Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau Beirniad: Guto Puw Heb fod yn hwy na 5 munud. Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadlaethau 313, 314 a 316.
316	Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed	Cyfansoddi naill ai: a. Cylch o ganeuon ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd b. Rhangan neu gytgan ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd c. Cyfansoddiad i un neu ddau offeryn ch. Cyfansoddiad i ensemble offerynnol Beirniad: Gareth Glyn ac Owain Llwyd Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Gweler rheolau Cyfansoddi a Chreu am fanylion anfon y gwaith terfynol. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i gystadlaethau 311-315.

Cyfansoddi: Cerdd Dant

Dyddiad cau cofrestru: 2 Mawrth 2026

317 Cyfansoddi Cainc dan 25 oed

Cyfansoddi Cainc ar unrhyw fesur ac unrhyw naws.

Beirniad: Mair Carrington Roberts

Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Dylid defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol Sibelius 6 neu debyg er mwyn cyflwyno'r gwaith.

318 Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed

Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd

Beirniad: Mair Carrington Roberts

Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Dylid defnyddio meddalwedd gyfrifiadurol Sibelius 6 neu debyg er mwyn cyflwyno'r gwaith.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfansoddi Cerddoriaeth a Chyfansoddi Cerdd Dant

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyfieithu

Dyddiad cau cofrestru: 2 Mawrth 2026

319 Cyfieithu 19–25 oed

Cyfieithu darn o 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caiff y darn ac enw'r beirniad eu cyhoeddi ar ein gwefan ddechrau mis Ionawr 2026. Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caiff y darn ac enw'r beirniad eu cyhoeddi ar ein gwefan ddechrau mis Ionawr 2023. Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Beirniad: Huw Tegid Roberts

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfieithu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu hefyd yn berthnasol i'r adran hon.



320 Darluniau ar gyfer llyfr stori-a-llun i blant dan 7 oed (18-25 oed)

Y dasg yw darlunio clawr yn ogystal â chyfres o ddarluniau mewnol ar gyfer llyfr stori-a-llun arfaethedig i blant dan 7 oed. Bydd ymgeiswyr yn derbyn testun y stori fel sbardun i ddarlunio clawr trawiadol i'r naratif yn ogystal â dwy dudalen (un agoriad) mewnol o'r stori.

Bydd y beirniad yn ystyried amrywiaeth o elfennau wrth farnu'r darluniau gan gynnwys gallu'r ymgeisydd i briodi testun y stori â'u darluniau; dealltwriaeth yr ymgeisydd o naratif a rhediad y stori; dealltwriaeth yr ymgeisydd o gynulleidfa darged y stori a sgiliau darlunio'r ymgeisydd.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Darlunio Llyfr Stori-a-llun

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Gwaith Cartref hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 3 **Fformat** - Dylid cyflwyno'r gwaith gorffenedig fel dogfen PDF digidol. Maint tudalen o'r llyfr yw 210 x 210mm. Maint y ddwy dudalen gyfochrog (agoriad) fydd 420 x 210mm.
- 4 **Dulliau darlunio** - Caniateir a chroesawir unrhyw ddull o ddarlunio sy'n gyfforddus i'r ymgeisydd gan gynnwys dulliau â llaw megis paent, pensil, collage neu ddulliau digidol megis defnydd o iPad/tabled dylunio neu gyfrifiadur. Noder y bydd angen i unrhyw geisiadau sy'n defnyddio dulliau â llaw gael eu trosi i PDF digidol er mwyn cyflwyno.
- 5 Ni chaniateir defnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI, Artificial Intelligence) i gynhyrchu'r darluniau neu unrhyw elfen o ddarlun. Fodd bynnag, caniateir defnyddio'r dechnoleg i dcluso darluniau yn ddigidol ble'n briodol.
- 2 Wedi i chi ddarllen y stori, ewch ati i ddarlunio clawr trawiadol sy'n cyfleu'r naratif ac yn gweddu'r gynulleidfa darged.
- 3 Ewch ati i ddewis tamaid o destun o'r stori i ddylunio'ch agoriad mewnol. Cofiwch fod 'agoriad' yn golygu 'spread' sef dwy dudalen ochr wrth ochr o fewn llyfr.
